Cyfarfod Cyngor Sir Caerfyrddin 10 Tachwedd 2021

GWELLIANT I'R RHYBUDD GYNNIG (Eitem 8.1 ar yr agenda) A GYFLWYNWYD GAN Y CYNGHORYDD ROB JAMES

Bod y Cyngor:

- Yn nodi'r penderfyniad a wnaed gan weinyddiaeth Plaid a'r Grŵp Annibynnol yn 2016 i "beidio [ymateb] i geisiadau ar eiddo preifat ynghylch Clymog Japan a phlanhigion estron goresgynnol eraill na chymryd camau gweithredu ffurfiol yn eu cylch, a oedd, ac sy'n parhau i fod yn unol â dulliau cynghorau eraill yng Nghymru".
- Yn cydnabod bod Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014 wedi rhoi pwerau i Gynghorau gyhoeddi 'Hysbysiadau Amddiffyn Cymunedol' i fynd i'r afael â chlymog ar dir preifat sy'n cael effaith andwyol ar ansawdd bywyd yr ardal ac sy'n barhaus ac yn afresymol.
- Yn cydnabod, y tu hwnt i Gymru, bod Bryste wedi defnyddio'r pwerau hyn i gefnogi preswylwyr, yr effeithiwyd yn negyddol ar eu bywydau gan fethiant tirfeddianwyr i reoli clymog.
- Yn galw ar y weinyddiaeth Plaid a'r Grŵp Annibynnol i wrthdroi ei phenderfyniad a dechrau defnyddio Hysbysiadau Amddiffyn Cymunedol i gefnogi'r mater o glymog ar dir preifat sy'n cael effaith andwyol ar breswylwyr mewn llawer o gymunedau yn sir Gaerfyrddin".
- Yn galw ar Lywodraeth Cymru i annog cynghorau eraill i ystyried cymryd camau tebyg

Cynigydd: Cyng. David Thomas

Eilydd: Cyng. Mansel Charles